**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

—

**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Peredur Owen-Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

20 Ebrill 2023

Annwyl Peredur,

Craffu ar Gyllideb Ddrafft 2023-24: Tystiolaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru

Diolch am ein gwahodd i rannu barn ynghylch dogfennaeth Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru a thystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidogion.

O ran ein dull o graffu ar Gyllideb Ddrafft 2023-24, gwnaethom ysgrifennu at y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ynghylch ein meysydd blaenoriaeth a chawsom ymateb ar 16 Rhagfyr 2022. Gwnaethom gynnal sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol ar 16 Ionawr 2023.

Ar lefel ymarferol, roeddem yn ddiolchgar i Lywodraeth Cymru am ddarparu ei thystiolaeth ysgrifenedig mewn modd amserol, a hynny cyn 16 Ionawr 2023. Fodd bynnag mae ein hadroddiad, a gyhoeddwyd ar 6 Chwefror 2023, yn nodi ein prif bryderon ynghylch y ddogfennaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo ein gwaith craffu. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â faint o fanylion sydd ar gael i gyfiawnhau penderfyniadau cyllidebol a'u heffaith ar wahanol sectorau o gymdeithas. Ceir crynodeb o'r rhain isod:

## Tryloywder

Fel y gwyddoch, mae cylch gwaith ein Pwyllgor yn cwmpasu meysydd sy'n cynnwys Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a'r Cynllun Gweithredu LHDTC+, sydd ill dau'n gynlluniau trawslywodraethol. Roeddem yn siomedig na chawsom arwydd clir o'r dyraniadau cyllidebol ar draws adrannau cyn ein sesiwn graffu. Gall natur drawsadrannol cynlluniau fel y rhain gymylu tryloywder ac atebolrwydd. Er mwyn galluogi gwaith craffu mwy effeithiol, dylid darparu dadansoddiad manylach o'r ffigurau.

## Asesiadau Effaith Integredig Strategol

Ein barn ni yw y dylid nodi'n glir effaith penderfyniadau cyllidebol o ran cydraddoldeb a llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Nid oedd yr Asesiad Effaith Integredig Strategol fel y cafodd ei gynnwys gyda Chyllideb Ddrafft 2023-24 yn cynnig y manylion y credwn sy'n angenrheidiol er mwyn cyfiawnhau penderfyniadau gwariant Llywodraeth Cymru. Ailadroddodd ein hadroddiad argymhelliad o'n hadroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2022-23, sef y dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r Asesiad Effaith Integredig Strategol gyda'r bwriad o gyhoeddi cofnod manylach o sut mae penderfyniadau'r Gyllideb Ddrafft yn effeithio ar wahanol grwpiau cyn y Gyllideb Derfynol. Gwrthodwyd hyn gan Lywodraeth Cymru yn ei hymateb i'n hadroddiad ar 1 Mawrth 2023.

Dadansoddiad dosbarthiadol o gyllidebau

Roedd ein hadroddiad yn nodi esboniad Llywodraeth Cymru na chyhoeddwyd dadansoddiad dosbarthu wedi'i ddiweddaru fel rhan o broses 2023-23 oherwydd bod y dyraniadau'n parhau'n weddol debyg. Fodd bynnag, credwn fod yr argyfwng economaidd ynghylch costau byw yn cyfiawnhau diweddaru'r dadansoddiad hwn gymaint â phosibl, gan y bydd yn hollbwysig o ran llywio'r Cynllun Gwella'r Gyllideb. Gwrthodwyd ein hargymhelliad i Lywodraeth Cymru gyhoeddi dadansoddiad dosbarthiadol wedi'i ddiweddaru ochr yn ochr â'r Gyllideb Derfynol.

Rydym yn gobeithio y bydd ein myfyrdodau yn ddefnyddiol i'ch Pwyllgor wrth iddo wneud ei waith yn y maes pwysig hwn.

Yn gywir,



Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol